

# Tair angladd a phriodas

*“Peidiwch â’ m galw’n Naomi, galwch fi’n Mara, oherwydd bu’r Hollalluog yn chwervw iawn wrthyf.” (adn. 20)*

## Beth am ddarllen Ruth 1:15–22 ac yna myfyrio

Rŵan cawn edrych yn fwy manwl ar fywydau pobl gyffredin iawn a gweld sut y cafodd eu storïau personol hwythau eu plethu i mewn i epig fawr Duw. Dros y blynyddoedd rydw i wedi clywed sawl un yn mynegi barn am stori Ruth, ond dim yn fwy rhyfeddol na hyn: “Dynes ddŵad ddinod oedd Ruth ond sydd â’i bywyd yn hanfodol er mwyn adrodd stori gyflawn iachawdwriaeth.” Dynes na anwyd i’r ffydd Iddewig – dynes ddŵad – a ddaeth yn rhan annatod o stori fwy pobl Dduw.

Dylai’r rheiny sy’n meddwl mai dim ond yr enwau mawr mae Duw yn eu gwau i dapestri ei bwrpas tragwyddol astudio Llyfr Ruth, gan fod ei stori syml ond hyfryd hi yn dangos mai’r gwrthwyneb sy’n wir. Stori ydy hi am newyn, tair angladd a phriodas! Ond gwell dechrau o’r dechrau.

Cychwynna’r stori gyda chyhoeddi newyn yng ngwlad Jwda. Yn nhref fechan Bethlehem mae’n ddyn o’r enw Elimelech yn cymryd ei wraig Naomi a’u dau fab a mynd i fyw yng ngwlad Moab. Ar ôl ryw hyd bu farw Elimelech ac mae’r ddau fab yn priodi merched o wlad Moab. Yn ddiweddarach bu farw’r ddau fab hefyd, gan adael Naomi a’i dwy ferch-yng-nghyfraith mewn amgylchiadau anodd. Mae Naomi yn penderfynu dychwelyd i Fethlehem, ac mae Ruth, un o’i merched-yng-nghyfraith, yn crefu am gael mynd efo hi.

Wrth i Naomi dychwelyd o’r diwedd i Fethlehem ar ôl cyfnod o ddeng mlynedd, mae yna orfoleddu mawr yn y dref. Ond tristwch sydd yn llethu Naomi, a dim ond geiriau o alarmad sydd ganddi: “Yr oeddwn yn llawn wrth fynd allan, ond daeth yr Arglwydd â mi’n ôl yn wag.” Mae’n bosib fod hyn yn swnio’n beth negyddol iawn i’w ddweud, ond mae hyd yn oed ei gwacter hi yn cael ei wau i mewn i’r plot, ac yn dod, fel y cawn ni weld, yn achlysur ar gyfer dangos rhagluniaeth Duw.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Ex. 17:1–7;

1 Bren. 19:1–16

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd ymateb Duw i gwyn yr Israeliaid ?
2. Sut oedd Elias yn rhan o stori Duw er gwaethaf ei gwyn?

## Gweddi

O Dad, gwelaf nad ydy teimladau negyddol na hyd yn oed cwynion a gaiff eu lleisio yn fy ngwahardd rhag cael rhan yn dy stori. Rwyf ti yn cymryd ein cwynion o ddifri’. Rydw i’n ddiolchgar iawn am hynny. Amen.